

# Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23

Chwefror 2022

## 1. Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi barn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23. Bwriedir iddo lywio dadl y Senedd ar y gyllideb ddrafft, sydd wedi ei threfnu ar gyfer 8 Chwefror 2022.

2. Mae ein gwaith craffu wedi'i lywio gan:

- Dystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, a'u swyddogion.
- Trafodaethau ynghylch y dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor Cyllid drwy ei ymgyngoriad a gwaith ymgysylltu ar y blaenoriaethau ar gyfer y gyllideb ddrafft.

3. Mae cryn orgyffwrdd rhwng ein cylch gwaith ni a chylch gwaith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl a gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc. Felly, cytunwyd â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i rannu'r dystiolaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ynghyd â'r deunyddiau briffio preifat a baratowyd ar ein cyfer gan ein swyddogion.



## 2. Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23

### Cefndir

4. Ar 20 Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23, sy'n nodi'r dyraniadau ar gyfer prif grwpiau gwariant y gyllideb, ei chynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf ar gyfer 2022-23, a'r dyraniadau arfaethedig ar gyfer 2023-24 a 2024-25. Yn dilyn cyllideb yr hydref Llywodraeth y DU yn 2021 a'r adolygiad o wariant, y gyllideb ddrafft hon yw cyllideb ddrafft aml-flwyddyn gyntaf Llywodraeth Cymru ers 2017.

5. Yn ôl naratif y gyllideb ddrafft, Cyllideb ddrafft 2022-23: cyllideb i adeiladu Cymru gryfach, tecach a gwyrdd, mae'r gyllideb yn "blaenoriaethu cyllid ar gyfer iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Awdurdodau Lleol sy'n parhau i fod ar flaen y gad yn y pandemig". Dros y cyfnod o dair blynedd, dywed fod hyn yn cynnwys:

- £1.3 biliwn o fuddsoddiad refeniw ychwanegol ar gyfer GIG Cymru.
- £100 miliwn o gyllid ychwanegol wedi'i dargedu at iechyd meddwl.
- £0.75 biliwn o gyllid ychwanegol i lywodraeth leol ar gyfer ysgolion, gofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill.
- £60 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer diwygio gofal cymdeithasol a chynaliadwyedd.
- £1.3 biliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer gofal iechyd.<sup>1</sup>

6. Serch hynny, dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol fod yr adolygiad o wariant yn "cyflwyno heriau sylweddol" oherwydd rhwng 2022-23 a 2024-25, disgwylir i gyllid refeniw gynyddu mewn termau real o lai na 0.5 y cant, a disgwylir i gyllid cyfalaf ostwng bob blwyddyn mewn termau arian parod.<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2022-23: cyllideb i adeiladu Cymru gryfach, tecach a gwyrdd, 20 Rhagfyr 2021, tt.iii-v, a t.4

<sup>2</sup> Ibid, tt.ii

## Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

7. Mae'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys cyllid refeniw a chyfalaf craidd ar gyfer GIG Cymru a chyllid ar gyfer iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol a chefnogi plant. Fel yn y blynyddoedd ariannol blaenorol, MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi cael y dyraniad mwyaf o fewn cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. £10,137 miliwn yw'r Terfyn Gwariant Adrannol ("DEL") yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23 (43.5 y cant o'r cyfanswm o £23.7 biliwn a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru).<sup>3</sup> Mae hyn yn cynnwys refeniw o £9.8 miliwn a chyfalaf o £335 miliwn. Mae **Tabl 1** yn crynhoi'r newidiadau mewn cyllid DEL o'i gymharu â'r gyllideb derfynol ar gyfer 2021-22.

**Tabl 1 Cyllideb ddrafft 2022-23 Terfynau Gwariant Adrannol: crynodeb o'r newidiadau o'r gyllideb derfynol 2020-21<sup>4</sup>**

	2022-23 (£ miliwn)
<b>Refeniw</b>	
Llinell sylfaen y Refeniw fel yr oedd yng Nghyllideb Derfynol 2021-22	9,227.959
Addasiadau i'r Llinell Sylfaen	(445.000)
Dyraniad MEG	1,018.819
<b>DEL diwygiedig fel yr oedd yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23</b>	<b>9,801.778</b>
<b>Cyfalaf</b>	
Llinell Sylfaen y Cyfalaf fel yr oedd yng nghyllideb derfynol 2021-22	387.600
Addasiadau i'r Llinell Sylfaen	(52.600)
<b>DEL diwygiedig fel yr oedd yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23</b>	<b>335.000</b>
<b>Cyfanswm cyllideb ddrafft 2022-23 yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol</b>	<b>10,136.778</b>

<sup>3</sup> I'r MEG Cyllid a Llywodraeth Leol y mae'r ail ddyraniad mwyaf (gyda dyraniad o £4,609 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2022-23 (ac eithrio tua £1 biliwn o incwm o ardrethi annomestig). [Gwybodaeth bellach](#), gan gynnwys diagram rhyngweithiol sy'n dangos y gwahanol ddyraniadau, wedi'i baratoi gan Ymchwil y Senedd.

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23](#), Rhagfyr 2021, t.1 Nid yw'n cynnwys Gwariant Blynyddol a Reolir (AME), sydd y tu allan i'r DEL.

**8.** Mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio dyraniadau MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2022-23 i 2024-25 fel rhai sy'n "gwyro'n drwm at ddechrau'r cyfnod, gyda chynnydd llawer mwy yn 2022-23 a chynnydd cymharol is yn yr ail a'r drydedd flwyddyn":

- **Refeniw:** erbyn 2024-25, bydd cyllid refeniw ar gyfer MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynyddu o'r llinell sylfaen £8.597 biliwn i £10.05 biliwn. Mae hyn yn cynnwys cynnydd yng nghyllidebau refeniw sylfaenol GIG Cymru o £824 miliwn yn 2022-23, £250 miliwn yn 2023-24 a £200 miliwn yn 2024-25.
- **Cyfalaf:** bydd y cyllid yn gostwng i ddechrau yn 2022-23 o'i gymharu â'r gyllideb derfynol ddiwygiedig ar gyfer 2021-22, ond bydd wedyn yn cynyddu mewn termau arian parod gan £40 miliwn (11.9 y cant) yn 2023-24 a chan £20 miliwn (5.3 y cant) yn 2024-25. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod hyn, dros y cyfnod o dair blynedd, yn cynnwys buddsoddiad o dros £800 miliwn o wariant cyfalaf mewn seilwaith digidol, offer y GIG a seilwaith y GIG.<sup>5</sup>

## Ymgynghori ac ymgysylltu

### Rhanddeiliaid

---

**9.** O ran iechyd, esboniodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod "y mwyafrif helaeth" o'r cyllid yn cael ei ddyrannu i GIG Cymru, a bod blaenoriaethau a dyraniadau wedi'u trafod gyda'r gwasanaeth iechyd drwy'r "fforymau trafod ac ymgysylltu niferus iawn sydd wedi'u hen sefydlu".<sup>6</sup>

**10.** O ran gofal cymdeithasol, dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod wedi cynnal sawl cyfarfod gyda'r sector gwirfoddol, gan gynnwys grwpiau o ofalwyr. Ychwanegodd fod cyfyngiadau yn y cyllid cyffredinol sydd ar gael yn golygu bod y gyllideb ddrafft yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r pethau y gofynnwyd amdanynt, ond efallai nad yw'r swm bob amser wedi bod cymaint ag y dymunir.<sup>7</sup>

### Y Cytundeb Cydweithio

---

**11.** Ym mis Rhagfyr 2021, ymrwymodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i Gytundeb Cydweithio sy'n cynnwys amrywiaeth o ymrwymadau polisi ac ymrwymadau deddfwriaethol, ynghyd ag:

---

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23, Rhagfyr 2021, t.2

<sup>6</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 7], 13 Ionawr 2022

<sup>7</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 15 ac 17], 13 Ionawr 2022

---

- Ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i “ymgynggori a chydweithio â Phlaid Cymru drwy gydol y broses ddatblygu a chraffu ar bob cam o gylch y Gyllideb flynyddol”.
- Ymrwymiad gan Blaid Cymru i “hwyluso’r broses o basio Cyllidebau Blynyddol ac Atodol gydol oes y Cytundeb hwn”.<sup>8</sup>

**12.** Dywedodd y Gweinidogion wrthym fod cyllideb ddrafft 2022-23 yn cynnwys cyllid ar gyfer ymrwymadau yn y Cytundeb Cydweithio sy’n ymwneud â’r canlynol:

- Sefydlu ysgol feddygol yng ngogledd Cymru (£7 miliwn yn 2022-23).
- Gofal plant a’r blynyddoedd cynnar (tua £15-20 miliwn dros dair blynedd i ymestyn cymorth i deuluoedd mewn addysg a hyfforddiant, ynghyd â thua £10 miliwn y flwyddyn ar gyfer y cynnydd yn y gyfradd fesul awr ar gyfer rhaglenni addysg a gofal plentyndod).
- Ymestyn cynllun Dechrau'n Deg i blant dwy oed (cyllid i'w gyhoeddi).
- Treialu darpariaeth noddfa ar gyfer iechyd meddwl i blant a phobl ifanc.<sup>9</sup>

## Ein barn ni

**13.** Cynhaliwyd ein gwaith craffu ar y gyllideb yng nghyd-destun ansicrwydd parhaus ynghylch trywydd pandemig COVID-19 a’i effaith ar ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ein gweithlu (gan gynnwys gwirfoddolwyr a gofawyr di-dâl) a defnyddwyr gwasanaethau. Rydym yn croesawu’r ffaith yr aed yn ôl i’r arfer o lunio cynlluniau ariannol aml-flwyddyn i roi mwy o sicrwydd a galluogi cyrff yn y sector cyhoeddus a sefydliadau sy’n cael cyllid grant i gynllunio’n fwy effeithiol.

**14.** Yn ystod y pandemig, amlygwyd a gwaethygyd anawsterau a oedd yn bodoli eisoes gan gynnwys breuder enbyd y sector gofal cymdeithasol, anghyfiawnder yn sgil anghydraddoldebau iechyd, a’r angen am weledigaeth strategol ac atebolrwydd fel y gellir integreiddio a thrawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol. Byddwn yn dychwelyd at y materion hyn yn ein gwaith craffu ar bolisi, gwariant a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn ystod tymor y Senedd hon.

**15.** Nid ydym yn gwneud yn fach o’r heriau o ymateb i’r pandemig, cynnal y gwasanaethau hanfodol sydd eu hangen ar ein cymunedau nad ydynt yn ymwneud â COVID-19, a gweithio i

---

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru, *Y Cytundeb Cydweithio: mecanweithiau*, 1 Rhagfyr 2021 [cyrchwyd 4 Ionawr 2022]

<sup>9</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 20-24], 13 Ionawr 2022

---

sicrhau dechrau newydd ar ôl y pandemig sy'n caniatáu i bobl fyw bywydau hirach ac iachach, system iechyd a gofal cymdeithasol fwy effeithiol a phrofiadau mwy cadarnhaol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysicach nag erioed bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei blaenoriaethau, a'r dyraniadau cyllid cysylltiedig, yn cael eu datblygu wrth ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid. Mae hefyd yn hanfodol bod y canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio eu cyflawni drwy ddyraniadau'r gyllideb yn cael eu nodi'n glir, bod y cynnydd a wneir yn cael ei fonitro, a bod arweinyddiaeth gref ac effeithiol i sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cyflawni.

**Argymhelliad 1.** Wrth gyflwyno cyllidebau drafft yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru nodi pwy yr ymgynghorwyd â hwy a phwy yr ymgysylltwyd â hwy wrth ddatblygu'r cynigion, sut y gwnaed hyn, a pha newidiadau sydd wedi'u gwneud o ganlyniad.

**Argymhelliad 2.** Wrth gyflwyno cyllidebau drafft yn y dyfodol, ac wrth ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i lywio gwaith craffu pwyllgorau'r Senedd ar y cynigion cyllidebol, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o eglurder ynghylch sut y mae pob dyraniad o fewn y gyllideb yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, pa ganlyniadau mesuradwy y bwriedir i'r dyraniad eu cyflawni, a sut y bydd y cynnydd a wneir yn erbyn canlyniadau o'r fath yn cael ei fonitro a'i adrodd mewn modd tryloyw.

### 3. Cyllid cyfalaf

#### Cefndir

**16.** Mae naratif y gyllideb ddrafft yn nodi bod cyllid cyfalaf cyffredinol Llywodraeth Cymru yn gostwng mewn termau arian parod ym mhob blwyddyn o'r adolygiad o wariant, a bydd 11 y cant yn is yn 2024-25 nag yr oedd yn 2021-22.<sup>10</sup>

**17.** Yn 2022-23, £335 miliwn yw dyraniad cyfalaf MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn ostyngiad cyffredinol o £48 miliwn o'i gymharu â'r £387.6 miliwn yng nghyllideb derfynol 2021-22. O fewn y dyraniad o £335 miliwn, mae £50 miliwn wedi'i ddyrannu i gronfa gyfalaf gofal cymdeithasol newydd gyda'r bwriad o alluogi Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar y gwaith o drawsnewid seilwaith gofal cymdeithasol drwy ddatblygu hybiau cymunedol lleol, ail-gydbwysu'r ystâd gofal cymdeithasol a gwella'r trefniadau i gefnogi'r gwaith o integreiddio

---

<sup>10</sup> Llywodraeth Cymru, *Cyllideb Ddrafft 2022-23: cyllideb i adeiladu Cymru gryfach, tecach a gwyrdd*, 20 Rhagfyr 2021, tt.ii

---

iechyd a gofal cymdeithasol.<sup>11</sup> O ganlyniad, mae dyraniad cyfalaf craidd y GIG ar gyfer 2022-23 wedi'i leihau gan £98 miliwn (26 y cant) o'i gymharu â 2021-22.<sup>12</sup>

**18.** Yn ogystal, mae cronfa fuddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer ei blaenoriaethau digidol hefyd yn cael ei defnyddio i gefnogi buddsoddiad digidol y GIG. Mae cronfa fuddsoddi'r Llywodraeth yn cyd-fynd â buddsoddiadau a wneir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru a sefydliadau eraill GIG Cymru drwy eu dyraniadau refeniw a chyfalaf dewisol.<sup>13</sup>

**19.** Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym fod ganddi uchelgeisiau mawr i fod yn drawsnewidiol, ac y byddai'r gronfa gyfalaf gofal cymdeithasol newydd yn gam tuag at gyflawni un o brif ymrwymïadau maniffesto Llafur Cymru, sef canolbwyntio ar ofal cymdeithasol. Serch hynny, disgrifiodd argaeledd cyfyngedig cyllid cyfalaf ar gyfer Iechyd yn 2022-23 fel "rhan fwyaf heriol y gyllideb". Ychwanegodd fod rhywfaint o arian eisoes wedi'i ymrwymo i waith hanfodol, megis mynd i'r afael â pheryglon tân, gan gyfyngu ymhellach ar argaeledd cyllid ar gyfer prosiectau trawsnewidiol.<sup>14</sup>

**20.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'r dyraniad cyfalaf llai yn "cyfyngu'r cyfleoedd sydd ar gael i'r GIG o ran datgarboneiddio ond, pan fydd yn bosibl, bydd y cynlluniau hyn yn cael eu cynnwys yn nyluniadau cynlluniau felly byddwn yn parhau i wneud cynnydd yn erbyn y targed sero net".<sup>15</sup>

**21.** Ym mis Tachwedd 2021, disgrifiodd Confederasiwn GIG Cymru fuddsoddiad cyfalaf i fod yn gyllid hollbwysig i barhau i ddarparu gwasanaethau Iechyd diogel o ansawdd uchel ac wrth fodloni nodau tymor hwy i integreiddio gofal. Ychwanegodd y Confederasiwn:

*"Research shows capital constraints hamper the ability of NHS organisations to successfully deliver care, that the state of the built environment affects patient*

<sup>11</sup> Yn flaenorol, mae cyllid cyfalaf ar gyfer gofal cymdeithasol wedi'i ddarparu drwy'r setliad llywodraeth leol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym ar 13 Ionawr 2022 mai byrddau partneriaeth rhanbarthol fyddai'n gyfrifol am ddatblygu cynlluniau buddsoddi ar gyfer y gronfa cyfalaf gofal cymdeithasol (gweler adran). 9 o'r adroddiad hwn).

<sup>12</sup> Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23](#), Rhagfyr 2021, t.6

<sup>13</sup> Llywodraeth Cymru, [Datganiad i'r wasg: £50m a chorff newydd i drawsnewid gwasanaethau Iechyd a gofal digidol yng Nghymru](#), 30 Medi 2019

<sup>14</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 11 ac 156-7], 13 Ionawr 2022

<sup>15</sup> Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23](#), Rhagfyr 2021, t.6

*outcomes, and staff are more productive when they have the right up-to-date equipment to efficiently treat patients".<sup>16</sup>*

**22.** Wrth ymateb i gynigion y gyllideb ddrafft ym mis Rhagfyr 2021, dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru fod ei aelodau'n siomedig gyda'r diffyg buddsoddiad mewn seilwaith cyfalaf i wella a dylunio ystadau a chyfleusterau'r GIG, a soniodd am y posibilrwydd o golli cyfleoedd i wella gwasanaethau, i leihau effeithiau amgylcheddol. ac i ymateb i argyfwng yr hinsawdd.<sup>17</sup>

**23.** Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid nododd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid fod peth hyblygrwydd i symud cyllid o gyllidebau adnoddau neu refeniw i gyfalaf (ond nid i'r gwrthwyneb).<sup>18</sup> Cadarnhaodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y gellir sicrhau bod yr hyblygrwydd hwn ar gael, a'i fod wedi'i ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 a 2021-22. Eglurodd y Gweinidog a'i swyddogion fod awdurdodau lleol yn gallu gwneud penderfyniadau o'r fath eu hunain, ac y gallai byrddau iechyd ofyn i Lywodraeth Cymru wneud newidiadau o'r fath. Ychwanegodd y Gweinidog fod yn rhaid i benderfyniadau o'r fath gael eu llywio gan ystyried goblygiadau i refeniw yn sgil buddsoddiad cyfalaf, gan gynnwys costau cynnal a chadw parhaus.<sup>19</sup>

## Ein barn ni

**24.** Rydym yn cytuno â Chonffederasiwn GIG Cymru y gall buddsoddiad cyfalaf wneud cyfraniad sylweddol wrth reoli'r pandemig ac adfer ar ei ôl, yn ogystal â thrawsnewid ac integreiddio ein gwasanaethau iechyd a gofal. Rydym yn croesawu uchelgeisiau trawsnewidiol y Gweinidog, ond mae gennym bryderon a fydd yr uchelgeisiau hyn yn gyraeddadwy.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a yw wedi cael unrhyw drafodaethau gyda chyrff iechyd neu awdurdodau lleol ynghylch symud cyllid o adnoddau i gyfalaf er mwyn ariannu prosiectau cyfalaf iechyd a gofal cymdeithasol trawsnewidiol. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru nodi a yw'n fodlon ystyried ceisiadau gan fyrddau iechyd i gyllid gael ei symud yn y modd hwn.

---

<sup>16</sup> Conffederasiwn GIG Cymru, [Ymateb i waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23](#), 24 Tachwedd 2021, t.4

<sup>17</sup> Conffederasiwn GIG Cymru, ['Ymateb i gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru'](#), 20 Rhagfyr 2021

<sup>18</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 139], 14 Ionawr 2022

<sup>19</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraffau 131-132], 21 Ionawr 2022



**25.** Rydym yn arbennig o bryderus y gallai gostyngiadau mewn cyllid cyfalaf gyfyngu ar faint prosiectau arloesol a thrawsnewidiol, a'r cyflymder y cânt eu cyflawni, hyd yn oed pan fo prosiectau o'r fath, er enghraifft e-ragnodi, yn cael eu croesawu a'u cefnogi'n eang.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ynghylch e-ragnodi. Dylai'r diweddariad gynnwys: manylion yr hyn sydd angen ei wneud yn ystod pob cam o'r prosiect, pa mor hir y rhagwelir y bydd pob cam yn ei gymryd, sut mae hyd disgwylidig pob cam wedi'i asesu a sut mae terfynau amser wedi'u pennu, a pha gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod e-ragnodi yn cael ei gyflwyno'n ddi-oed.

**26.** Rydym yn rhagweld, fel mewn blynyddoedd blaenorol, y gallai arian cyfalaf ychwanegol fod ar gael maes o law drwy gyllid canlyniadol Fformiwla Barnett. Er ei bod yn bosibl na ddaw'r sefyllfa'n glir o ran swm ac argaeledd cyllid o'r fath tan yn ddiweddarach yn 2022-23, byddem yn croesawu cadarnhad bod gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol flaenoriaethau clir ar gyfer sut y byddai unrhyw gyllid ychwanegol yn cael ei ddefnyddio.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am sut y blaenoriaethir unrhyw gyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a ddaw ar gael yn ystod y flwyddyn, er enghraifft drwy symiau canlyniadol Fformiwla Barnett. Dylai hyn gynnwys manylion ynghylch pa waith paratoi sy'n cael ei wneud i sicrhau bod cyfres o brosiectau y gellid eu datblygu heb oedi.

**27.** Rydym hefyd yn bryderus ynghylch yr awgrym bod datgarboneiddio yn cael ei ymgorffori mewn cynlluniau cyfalaf dim ond "lle bo modd", yn hytrach na meini prawf allweddol ochr yn ochr ag ystyriaethau megis yr effaith ar ganlyniadau cleifion neu werth am arian.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am effaith gostyngiadau mewn cyllid cyfalaf ar ddatgarboneiddio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, ac unrhyw oblygiadau ar gyfer ymateb y sectorau i argyfwng yr hinsawdd.

## 4. Sefyllfa ariannol GIG Cymru

### Perfformiad ariannol byrddau iechyd lleol

**28.** O dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, mae gan fyrddau iechyd ddwy ddyletswydd ariannol statudol, sef rheoli eu hadnoddau o fewn terfynau cymeradwy (h.y. adennill costau) dros gyfnod treigl o dair blynedd, a pharatoi cynllun tymor canolig integredig tair blynedd, a a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru.

**29.** Ym mlwyddyn ariannol 2020-21 a blwyddyn ariannol 2021-22 mae £1.1 biliwn o gyllid refeniw ychwanegol wedi'i ddarparu neu ei ddyrannu i'r GIG i gynnal neu wella sefydlogrwydd ariannol a chefnogi'r ymateb i'r pandemig. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu cymorth anariannol, gan gynnwys cynllunio, monitro ac adolygiadau gan Uned Cyflawni Ariannol y GIG; cyfarfodydd rheolaidd rhwng cyfarwyddwyr cyllid a swyddogion Llywodraeth Cymru; nodi cyfleoedd am arbedion; cymorth wedi'i dargedu lle bo angen; a sefydlu Grŵp Arwain ar Werth Cyllid.<sup>20</sup>

**Tabl 2 Perfformiad byrddau iechyd lleol: dyraniad refeniw 2021-22 (£m)<sup>21</sup>**

<b>Bwrdd iechyd</b>	<b>Alldro hyd yma 2021-22 Gor-wario / tanwario (£m)</b>	<b>Rhagolwg alldro diwedd y flwyddyn 2021-22 Gor-wario / tanwario (£m)</b>	<b>Alldro 2020-21 Gor-wario / tanwario (£m)</b>	<b>Alldro 2019-20 Gor-wario / tanwario (£m)</b>	<b>Alldro 2018-19 Gor-wario / tanwario (£m)</b>
<b>Aneurin Bevan</b>	0.0	0.0	0.2	0.0	0.2
<b>Betsi Cadwaladr</b>	0.0	0.0	0.5	(38.7)	(41.3)
<b>Caerdydd a'r Fro</b>	0.2	0.0	0.1	0.1	(9.9)
<b>Cwm Taf Morgannwg</b> <sup>22</sup>	0.5	0.0	0.1	0.9	0.0
<b>Hywel Dda</b>	(14.4)	(25.0)	(24.9)	(34.9)	(35.4)
<b>Powys</b>	0.1	0.0	0.1	0.1	0.1
<b>Bae Abertawe</b>	(13.9)	(24.4)	(24.3)	(16.3)	(9.9)

<sup>20</sup> Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23](#), Rhagfyr 2021, t.7

<sup>21</sup> Lluniwyd gan Ymchwil y Senedd yn seiliedig ar adroddiadau cyllid hyd at fis chwech (Medi 2021) ar gyfer Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Betsi Cadwaladr a Chaerdydd a'r Fro, a mis 7 (Hydref 2021) ar gyfer y byrddau iechyd eraill.

<sup>22</sup> O 1 Ebrill 2019, fe wnaeth y cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr drosglwyddo o BIP Abertawe Bro Morgannwg i BIP Cwm Taf Morgannwg.

<b>Gor-wario / tanwario net</b>	(27.6)	(49.4)	(48.2)	(88.8)	(96.2)
---------------------------------	--------	--------	--------	--------	--------

**30.** Fel y gwelir yn **Tabl 2**, dim ond tri o'r saith bwrdd iechyd a gyflawnodd eu dyletswyddau statudol i adennill costau dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2018-19 a 2020-21. Mae'n werth nodi, yn dilyn cymorth strwythurol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2020, gan gynnwys talu am ddiffygion o hyd at £40 miliwn y flwyddyn ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2020-21, 2022-23 a 2023-24, fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi adennill eu costau yn 2020-21 am y tro cyntaf ers nifer o flynyddoedd.

**31.** Rhagwelir y bydd pump o'r saith bwrdd iechyd yn adennill eu costau yn 2021-22; rhagwelir y bydd BIP Hywel Dda yn gorwario o £25.0 miliwn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn gorwario o £24.4 miliwn.<sup>23</sup> Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi derbyn £27 miliwn o gyllid rheolaidd ychwanegol ers 2018.

**32.** Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym fod y gorwariant wedi'i ragweld, a chan hynny bod cyllid wedi'i neilltuo yn 2021-22. Fodd bynnag, ychwanegodd y Gweinidog fod y Llywodraeth wedi ei gwneud yn glir iawn i'r byrddau iechyd hynny nad yw hon yn system gynaliadwy, ac nid yw'n deg ar fyrddau iechyd sy'n gwneud yn iawn ac yn cadw o fewn eu cyllideb.<sup>24</sup> Dywedodd fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wrthi'n datblygu cynllun ar gyfer cynaliadwyedd, ond nododd fod diffyg ariannol y BIP hwnnw yn cael ei yrru'n bennaf gan fodel gwasanaeth lle mae rhai gwasanaethau'n cael eu dyblygu. Eglurodd fod Llywodraeth Cymru yn aros i glywed gan y bwrdd iechyd a oedd angen ysbyty newydd ar gyfer gorllewin Cymru i helpu i ddatrys y broblem o dyblygu gwasanaethau.<sup>25</sup>

## Cynlluniau tymor canolig integredig

**33.** Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Mehefin 2021 fod sefyllfa ariannol y GIG yng Nghymru yn parhau i fod yn hynod o heriol wrth i'r Gwasanaeth barhau i reoli'r pandemig COVID-19, wrth iddo ganolbwyntio ar y gwaith o adfer ac wrth iddo ymateb i bwysau newydd o ran costau a phwysau.<sup>26</sup> Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym ym mis Medi 2021 nad oedd yn cytuno'n llwyr â barn Archwilydd Cyffredinol Cymru.<sup>27</sup>

<sup>23</sup> Llywodraeth Cymru, *Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23*, Rhagfyr 2021, t.7

<sup>24</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 47], 13 Ionawr 2022

<sup>25</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 58-9], 13 Ionawr 2022

<sup>26</sup> Archwilio Cymru, *'Ymateb COVID-19 yn sbarduno cynnydd mawr yng ngwariant y GIG wrth i bedwar bwrdd iechyd dorri dyletswyddau ariannol unwaith eto'*, 16 Mehefin 2021

<sup>27</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 300], 23 Medi 2021

Esboniodd y telir am y methiannau yn y modd y sicrheir arbedion gan y GIG gan gyllid afreolaidd gan Lywodraeth Cymru, ond dywedodd y byddai angen iddi sicrhau bod y GIG yn gallu sicrhau cynaliadwyedd ariannol wrth i lefelau cyllid rheolaidd ddychwelyd i'r llinell sylfaen.<sup>28</sup>

**34.** Mae disgwyl i gyrff y GIG gyflwyno eu cynlluniau tymor canolig integredig ar gyfer 2022-23 i 2024-25 i Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2022. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y dylai cyllideb 2022-23 alluogi gyrff y GIG i ddatblygu cynlluniau tymor canolig ariannol cynaliadwy y gellir eu cymeradwyo.<sup>29</sup>

**35.** Nid yw dyraniadau penodol ar gyfer byrddau iechyd unigol wedi'u cyhoeddi eto, ond mae'r dyraniadau cyffredinol hefyd yn cynnwys:

- Tua £50 miliwn wedi'i gadw'n ganolog ym MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i "helpu gyda'r diffygion yng nghynlluniau Byrddau Iechyd Hywel Dda a Bae Abertawe ar gyfer 2022-23".<sup>30</sup>
- Cyllid blynyddol rheolaidd o £180 miliwn i helpu'r GIG i "reoli effaith ariannol y pandemig ar ei sefyllfa ariannol sylfaenol, gan gynnwys cydnabod effaith y pandemig ar gynhyrchiant ac effeithlonrwydd".<sup>31</sup>

**36.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn disgwyl y bydd y GIG yn dychwelyd i'r "lefelau effeithlonrwydd a welwyd cyn y pandemig", gan sicrhau "arbedion effeithlonrwydd sy'n rhyddhau arian o un flwyddyn i'r llall".<sup>32</sup> Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, nododd Llywodraeth Cymru y rhagwelir dros £100 miliwn o arbedion (1.5 y cant) ar gyfer 2021-22.<sup>33</sup> Pwysleisiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei disgwyliad i gyrff iechyd fod yn effeithiol ac yn effeithlon. Canmolodd y GIG am yr arbedion a gyflawnwyd yn 2021-22, a dywedodd y byddai ei disgwyliad ar gyfer isafswm arbedion o 1.5 y cant y flwyddyn o 2022-23 ymlaen yn sicrhau cynnydd heb roi pwysau gormodol ar weithluoedd dan bwysau. Roedd y Gweinidog yn cydnabod mor bwysig yw meincnodi rhwng byrddau iechyd, a nododd fod gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod data'n gymaradwy.<sup>34</sup>

---

<sup>28</sup> Llywodraeth Cymru, [Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#), Medi 2021, t.1

<sup>29</sup> Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23](#), Rhagfyr 2021, t.8

<sup>30</sup> Ibid, t.7; Cofnod y Trafodion [paragraff 64], 13 Ionawr 2022

<sup>31</sup> Ibid, t.9

<sup>32</sup> Ibid, t.9

<sup>33</sup> Ibid, t.9

<sup>34</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 68 ac 74], 13 Ionawr 2022

---

## Ein barn ni

**37.** Nid yw'n dderbyniol bod yr un byrddau iechyd flwyddyn ar ôl blwyddyn yn methu â sicrhau cynaliadwyedd a chydbwysedd ariannol.

**38.** Amlinellodd y Gweinidog a'i swyddogion gynlluniau amrywiol i herio a chefnogi byrddau iechyd sy'n methu'n gyson â gweithredu o fewn eu cyllidebau. Fodd bynnag, mae'r byrddau iechyd hyn wedi bod yn cael eu herio a'u cynorthwyo, gan gynnwys cymorth ariannol ychwanegol sylweddol iawn, a hynny am gyfnod sylweddol. Nid ydym yn hyderus, felly, y bydd y camau gweithredu a ddisgrifiwyd inni yn cyflawni'r newidiadau sylweddol sydd eu hangen i sicrhau bod y byrddau iechyd hynny mewn sefyllfa ariannol gynaliadwy a chytbwys.

**39.** Wrth fynd i'r afael â'r materion hyn—yn enwedig lle gallai methiant i gyflawni cynaliadwyedd ariannol fod yn gysylltiedig â chynnydd araf wrth ymdrin â ffactorau aneffeithlon neu ddiffygion y gwyddys amdanynt yn eu modelau gwasanaeth—bydd angen arweiniad gwleidyddol a chlinigol cryf gan Lywodraeth Cymru, y bwrdd iechyd a gweithwyr meddygol proffesiynol, ynghyd â chyfathrebu clir ac effeithiol gyda'r gweithlu a'r cymunedau y mae byrddau iechyd yn eu gwasanaethu.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o sicrwydd ynghylch sut y bydd yn sicrhau bod pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn llwyddo i gyflawni cynaliadwyedd a chydbwysedd ariannol o fewn cylch cynllunio tymor canolig integredig 2022-23 i 2024-25.

**40.** Bydd pob bwrdd iechyd, hyd yn oed y rhai sydd wedi sicrhau cydbwysedd ariannol mewn cylchoedd cynllunio blaenorol, yn wynebu pwysau cynyddol ar eu costau sefydlog yn ystod y flwyddyn ariannol i ddod ac wedi hynny. Rydym yn nodi bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn disgwyl i fyrddau iechyd sicrhau arbedion o 1.5 y cant ym mhob blwyddyn ariannol, a bod gwaith yn cael ei wneud i hwyluso'r gwaith o feincnodi ar draws byrddau iechyd. Drwy feincnodi, gellid helpu byrddau iechyd i rannu eu ffyrdd o leihau costau sefydlog, er enghraifft drwy uwchraddio goleuadau i wella effeithlonrwydd ynni, neu adolygu polisiau mewn perthynas â thymheredd adeiladau. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau y gwneir cynnydd yn hyn o beth, bydd angen arweiniad gan Lywodraeth Cymru hefyd.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn gweithio gyda byrddau iechyd i leihau eu costau gweithredu sefydlog, gan gynnwys unrhyw gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i osod targedau neu ddisgwyliadau ar gyfer lleihau costau sefydlog.

## 5. Pandemig COVID-19

### Ymateb i bandemig COVID-19

**41.** Mae offeryn data rhyngweithiol Cyllid Archwilio Cymru yn dangos bod y gwariant net ychwanegol a gafwyd ar draws GIG Cymru mewn perthynas â COVID-19 yn £1.137 biliwn yn 2020-21, gyda'r byrddau iechyd yn gyfrifol am £886.3 miliwn o'r gwariant hwnnw.<sup>35</sup> Yn ei gyflwyniad i'r Pwyllgor Cyllid, galwodd Conffederasiwn GIG Cymru ar i'r gyllideb ddrafft gynnwys darpariaeth i reoli'r costau uniongyrchol ac anuniongyrchol yn sgil yr ymateb parhaus i'r pandemig, gan gynnwys:

- Costau newydd megis profi ac olrhain, cyfarpar diogelu personol, brechu a COVID hir.
- Costau ychwanegol wrth ddarparu gwasanaethau arferol y GIG a chyrraedd targedau perfformiad yng nghyd-destun y pandemig.<sup>36</sup>

**42.** Mae cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer olrhain cysylltiadau, profi, brechu a darparu cyfarpar diogelu personol i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ond bydd y cyllid hwn yn cael ei adolygu'n barhaus. Soniodd Llywodraeth Cymru am sawl maes ansicr, gan gynnwys cwrs y pandemig yn y dyfodol, y costau sy'n gysylltiedig â diwallu anghenion cyfredol cyfarpar diogelu personol gan gadw digon o stoc wrth gefn y gellir ei ddefnyddio, canllawiau esblygol ynghylch atal a rheoli heintiau, a chynghor a roddir maes o law ar barodrwydd os bydd pandemig yn y dyfodol.<sup>37</sup>

**43.** Gofynnem am sicrwydd bod digon o gapasiti a hyblygrwydd o fewn y gyllideb i ymateb i heriau'n ymwneud â COVID-19 yn y flwyddyn sydd i ddod. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn amlwg y byddai anghenion yn parhau, ond ni ddywedodd am ba mor hir y byddent yn parhau o fewn cyd-destun cyllideb tair blynedd.

---

<sup>35</sup> Dadansoddiad a wnaed gan Ymchwil y Senedd drwy ddefnyddio [offeryn data Archwilio Cymru ar gyfer cyfrifo Cyllid GIG Cymru](#)

<sup>36</sup> Conffederasiwn GIG Cymru, [Ymateb i waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23](#), 24 Tachwedd 2021, t.3

<sup>37</sup> Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23](#), Rhagfyr 2021, tt.3 a 10

---

Cadarnhaodd fod peth hyblygrwydd yn y gyllideb, a nododd ei bod yn bosibl y gallai unrhyw donnau ychwanegol o'r pandemig arwain at gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU.<sup>38</sup>

## Rheoli effaith pandemig COVID-19

**44.** Yn ôl data a ryddhawyd ar 20 Ionawr 2022, ym mis Tachwedd 2021, roedd dros 682,000 o lwybrau cleifion yng Nghymru yn aros i ddechrau triniaeth, ac o'r rhain roedd dros 241,000 wedi bod yn aros dros 36 wythnos.<sup>39</sup> Mae'n debygol y bydd rhagor eto nad ydynt wedi mynd ati i gael diagnosis neu driniaeth, ac felly ni fyddant yn cael eu cynnwys yn y ffigurau hyn. Wrth siarad yn yr Uwchgynhadledd Gofal wedi'i Gynllunio ym mis Tachwedd 2021, cydnabu'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol arwyddocâd effaith y pandemig ar ofal wedi'i gynllunio, a'r ôl-groniad enfawr o gleifion sy'n aros am driniaethau wedi'u cynllunio o ganlyniad.<sup>40</sup>

**45.** Yn ystod 2021-22, dyrannwyd £200 miliwn o refeniw a £48 miliwn o gyllid cyfalaf i raglen adfer y GIG. Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23 yn cynnwys £170 miliwn y flwyddyn i gryfhau gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio a chefnogi adferiad y GIG. Mae hyn yn cynnwys £150 miliwn o'r cynnydd ychwanegol yn y llinell sylfaen gwerth £824 miliwn, ac £20 miliwn o'r cyllidebau sylfaenol presennol. Ategir y dyraniad hwnnw gan ddyraniad pellach o £20 miliwn y flwyddyn i:

*"...i helpu i weithredu dull o adfer sy'n seiliedig ar werth yn y tymor canolig, a fydd yn rhoi pwyslais ar wella canlyniadau sy'n bwysig i gleifion [...] a bydd yn ategu'r gwaith o weithredu cynlluniau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd i ddelio â'r cleifion sy'n aros am driniaeth".<sup>41</sup>*

**46.** Cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai £1 biliwn yn cael ei wario ar adfer yn ystod tymor y Senedd hon.<sup>42</sup> Bwriad y cyllid yw sefydlogi ôl-groniadau cynyddol, a thrin cleifion sy'n aros am adolygiad, asesiad a thriniaeth, a hynny drwy:

<sup>38</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 30], 13 Ionawr 2022

<sup>39</sup> Dadansoddiad gan Ymchwil y Senedd ym mis Ionawr 2022 drwy ddefnyddio [StatsCymru, Lwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl misoedd, wythnosau wedi'u grwpio a gweithrediad y driniaeth](#)

<sup>40</sup> Llywodraeth Cymru, [Datganiad i'r wasg: Y Gweinidog Iechyd yn addo £170m ychwanegol y flwyddyn i 'drawsnewid' gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio](#), 4 Tachwedd 2021

<sup>41</sup> Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23](#), Rhagfyr 2021, t.3

<sup>42</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 78], 13 Ionawr 2022

- Drawsnewid gwasanaethau, gan gynnwys datblygu hybiau rhanbarthol.
- Sicrhau bod lefelau gweithgarwch y GIG yn dychwelyd i'r lefelau oedden nhw cyn y pandemig, ac wedyn yn gwella ar hynny.
- Datblygu ar lefel leol a rhanbarthol y gallu i ddarparu diagnosis a thriniaeth.
- Gallu gweithio gyda darparwyr eraill er mwyn gallu cael mynediad cyflymach.
- Datblygu a chynllunio'r gweithlu mewn modd integredig.
- Mwy o gomisiynu a chyfalaf.<sup>43</sup>

**47.** Pwysleisiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod dyraniadau cyllid yn rhai rheolaidd er mwyn cynnig sicrwydd a galluogi byrddau iechyd i wneud penderfyniadau ynghylch staffio a modelau cyflawni lleol a rhanbarthol.<sup>44</sup> Yn yr un modd, dywedodd Prif Weithredwr GIG Cymru fod gwella effeithlonrwydd a chanlyniadau cleifion yn hollbwysig. Aeth ymlaen i ddweud:

*"...[recovery is] very much about how we just don't go back to doing what we did pre-COVID, and actually take the opportunity to do things differently, moving forward".<sup>45</sup>*

## Ein barn ni

**48.** Yn ein strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd, fe wnaethom nodi'r angen am ddechrau newydd ar ôl y pandemig, ac i'n systemau iechyd a gofal cymdeithasol weithio'n fwy effeithiol nag o'r blaen.<sup>46</sup> Fodd bynnag, nid yw'r pandemig drosodd, ac mae ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn wynebu her â dwy elfen iddi: ymateb i'r pandemig, a chynnal y gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â COVID y mae pobl a chymunedau ledled Cymru yn dibynnu arnynt. Rydym yn croesawu, felly, bod y gyllideb yn cynnwys hyblygrwydd i dalu costau parhaus brechu, cyfarpar diogelu personol, profi ac olrhain cysylltiadau.

**49.** Rydym yn cydnabod bod mynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran amseroedd aros yn heriol ac y bydd yn cymryd amser, ond mae'n destun pryder mawr inni bod 1 o bob 5 o bobl yng Nghymru yn aros am ddiagnosis neu driniaeth ar hyn o bryd. Gall llawer o bobl fod yn aros am

---

<sup>43</sup> Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23](#), Rhagfyr 2021, t.11

<sup>44</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 79], 13 Ionawr 2022

<sup>45</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 87], 13 Ionawr 2022

<sup>46</sup> Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [Strategaeth y Chweched Senedd](#), Rhagfyr 2021

---



gyfnodau hir ac ansicr â hwythau mewn poen, anghysur, trallod neu galedi ariannol. Am y rheswm hwn, rydym wrthi'n cynnal ymchwiliad i effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl yng Nghymru sy'n aros am ddiagnosis neu driniaeth.<sup>47</sup> Byddwn yn cynnal sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru ar 10 Chwefror 2022, ac yn ystod y sesiwn byddwn yn trafod y materion hyn ymhellach.

**50.** Yn y cyfamser, rydym yn croesawu'r buddsoddiad yn y gwaith o adfer gwasanaethau'r GIG, a'r awgrym y bydd cynllun adfer Llywodraeth Cymru, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill, hefyd yn cynnwys ffocws ar drawsnewid ac ailgynllunio gwasanaethau. Rydym hefyd yn nodi'r bwriad i roi pwyslais ar ofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, er mwyn sicrhau bod yr hyn sy'n bwysig i gleifion yn cael ei ystyried wrth ddylunio a gwella gwasanaethau.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu eglurder ynghylch sut y bydd effaith gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, a'r ffocws ar drawsnewid ac ailgynllunio gwasanaethau yn y cynllun adfer, yn cael eu hasesu i sicrhau eu bod yn ysgogi ffyrdd newydd o weithio a modelau newydd o ddarparu gwasanaethau, a'u bod yn cyflawni gwell canlyniadau a phrofiadau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd.

## 6. Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol

### Y gweithlu gofal iechyd: recriwtio, cadw, addysgu a hyfforddi

**51.** Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23 yn cynnwys £260 miliwn i'w fuddsoddi mewn addysg a hyfforddiant i'r gweithlu gofal iechyd; cynnydd o 15 y cant o gymharu â 2021-22, ac mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y bydd hyn yn "rhoi hwb pellach i weithlu'r GIG, ac yn helpu i leihau'r angen am staff asiantaeth".<sup>48</sup> Mae darpariaeth benodol yn cynnwys £7 miliwn tuag at sefydlu ysgol feddygol newydd yn y gogledd, cynnydd o £31 miliwn i gefnogi'r cynllun comisiynu Addysg a Hyfforddiant, £2.3 miliwn ar gyfer 2020-23 i'r rhaglen Cymru Iach ar Waith ddarparu cymorth (gan gynnwys cymorth iechyd meddwl a lles) ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat, a £302.5 miliwn yn 2022-23 (a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol) ar gyfer Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

**52.** Cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn awyddus iawn i gael pobl i weithio'n uniongyrchol i'r GIG, yn hytrach nag mewn asiantaethau. Dywedodd y bu

<sup>47</sup> Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [Effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl yng Nghymru sy'n aros am ddiagnosis neu driniaeth](#) [cyrchwyd Ionawr 2022]

<sup>48</sup> Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23](#), Rhagfyr 2021, t.12

cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n gweithio'n uniongyrchol i'r GIG, yn ogystal â chynnydd yn nifer y staff dros dro, y gwirfoddolwyr a'r rhai a oedd yn dychwelyd wedi iddynt ymddeol.<sup>49</sup> Dywedodd y Gweinidog fod mecanweithiau pellach yn cael eu datblygu i wella argaeledd data ynghylch y defnydd a wneir o feddygon locwm a staff asiantaeth, ond cydnabu fod gweithio fel locwm neu staff asiantaeth yn rhoi mwy o hyblygrwydd i rai pobl nag sydd ar gael ar hyn o bryd i staff a gyflogir yn uniongyrchol. <sup>50</sup>

## Y gweithlu gofal cymdeithasol: telerau ac amodau

**53.** Mae prinder staff yn rhoi pwysau sylweddol ar wasanaethau gofal cymdeithasol, a disgwylir i'r pwysau hyn waethygu yn y misoedd i ddod.<sup>51</sup> Mae gwahaniaethau wedi bod ers tro o ran cyflogau, a telerau ac amodau staff gofal cymdeithasol o'u cymharu â staff gofal iechyd, hyd yn oed pan fo'r rolau a gyflawnir yn debyg.

**54.** Wrth drafod y ffaith bod cyllid wedi'i gynnwys yn y setliad llywodraeth leol a'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i alluogi awdurdodau lleol a chomisiynwyr byrddau iechyd i ddarparu codiad cyflog byw gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, disgrifiodd Llywodraeth Cymru hyn i fod yn gam pwysig wrth fynd i'r afael â'r heriau recriwtio a chadw. Bydd cwmpas y codiad cyflog yn cynnwys gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig mewn gwasanaethau i oedolion a phlant, gan gynnwys gweithwyr gofal cartref, pobl sy'n gweithio mewn cartrefi gofal, a chynorthwyr personol a ariennir trwy daliadau uniongyrchol. Bydd y cyllid ar gael o fis Ebrill 2022, a bydd y gweithwyr yn dechrau gweld y budd yn y misoedd canlynol. Yn ôl Llywodraeth Cymru, yn gynnar yn 2022, bydd yn "gweithio'n agos gyda phartneriaid – gan gynnwys comisiynwyr awdurdodau lleol, arweinwyr gofal cymhleth ac eraill – i ddeall a delio â'r holl fanylion hynny ynghylch sut bydd yr ymrwymiad yn cael ei roi ar waith".<sup>52</sup>

**55.** Fodd bynnag, y cyflog byw gwirioneddol oedd yr opsiwn mwyaf cymedrol a ystyriwyd gan y Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol, ac roedd dadansoddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2020 yn awgrymu y byddai cynigion mwy pellgyrhaeddol i alinio tâl gofal cymdeithasol â chyfradd cyflogau Agenda Newid y GIG yn costio £54 miliwn.<sup>53</sup>

---

<sup>49</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 106-7], 13 Ionawr 2022

<sup>50</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 122], 13 Ionawr 2022

<sup>51</sup> Fforwm Gofal Cenedlaethol, 'Workforce pressures' [cyrchwyd Ionawr 2022]

<sup>52</sup> Llywodraeth Cymru, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23, Rhagfyr 2021, t.5

<sup>53</sup> LE Wales, Defnyddio cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol: adroddiad terfynol i Lywodraeth Cymru, Rhagfyr 2020

---

**56.** Mae aelodau'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru, er ei fod yn gam cadarnhaol, na fydd darparu'r cyflog byw gwirioneddol yn ddigon i gefnogi, cadw a denu gweithwyr i faes gofal cymdeithasol. Er enghraifft, mae TUC Cymru wedi dweud bod y cyflog byw gwirioneddol wedi ei osod yn rhy isel, a'i fod yn anwybyddu'r ystod o ffactorau eraill sy'n ffurfio 'gwobr teg', gan gynnwys telerau ac amodau eraill, profiad a chyfrifoldebau.<sup>54</sup> Yn ogystal, dywedodd TUC Cymru ym mis Mehefin 2021 nad oedd tua 1 o bob 20 o weithwyr gofal yn gymwys i dderbyn Tâl Salwch Statudol.<sup>55</sup> Er bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynllun ychwanegiad at dâl salwch dros dro ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n hunanynysu neu'n cymryd absenoldeb salwch o ganlyniad i COVID-19, ac a fyddai fel arall ond yn derbyn Tâl Salwch Statudol neu ddim incwm o gwbl, bydd y cynllun hwn yn dod i ben ym mis Mawrth 2022.<sup>56</sup>

**57.** Roedd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydnabod na fyddai'r cyflog byw gwirioneddol ynddo'i hun yn ddigon i fynd i'r afael ag argyfwng y gweithlu gofal cymdeithasol, gan ddweud bod rhaid rhoi sylw i delerau ac amodau y tu hwnt i'r cyflog byw gwirioneddol, a hynny ar frys. Eglurodd y gofynnwyd i'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol wneud argymhellion o ran telerau ac amodau, gan gynnwys dilyniant gyrfa. Ychwanegodd ei bod hefyd wedi gofyn i swyddogion ystyried a ellid ymestyn y cynllun ychwanegiad at dâl salwch dros dro ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol y tu hwnt i fis Mawrth 2022.<sup>57</sup>

## Ein barn ni

**58.** Rydym yn croesawu'r ffaith y cyflwynwyd y cyflog byw gwirioneddol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol fel cam i'r cyfeiriad cywir. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod rhagor i'w wneud cyn y bydd cyflog a thelerau ac amodau gweithwyr gofal cymdeithasol yn gyfartal â'u cydweithwyr gofal iechyd, a chyn y lleddfir y pwysau ar y gweithlu gofal cymdeithasol ar draws awdurdodau lleol a darpariaeth gofal cymdeithasol preifat yng Nghymru.

**59.** Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth y Dirprwy Weinidog bod yn rhaid rhoi sylw i wella telerau ac amodau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, a hynny ar frys. Rhaid rhoi'r flaenoriaeth uchaf i'r gwaith hwn a'i ddatblygu fel mater o gryn frys er mwyn lleddfu'r pwysau sylweddol y mae argyfwng y gweithlu yn ei achosi ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol.

<sup>54</sup> TUC Cymru, '[Living wage for care workers in Wales: a start but not enough](#)', 29 Mehefin 2021

<sup>55</sup> TUC, '[One in 12 key workers do not qualify for statutory sick pay](#)', 24 Mehefin 2021

<sup>56</sup> Llywodraeth Cymru, '[Cynllun ychwanegiad at dâl salwch statudol ar gyfer COVID-19](#)' [cyrchwyd Ionawr 2022]

<sup>57</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 179], 13 Ionawr 2022

**60.** Rydym yn cefnogi'n gryf ymestyniad y cynllun ychwanegiad at dâl salwch statudol COVID-19 y tu hwnt i fis Mawrth 2022, ond rydym yn credu bod angen rhoi ystyriaeth bellach hefyd i gymhwystra ar gyfer tâl salwch yn ehangach er mwyn darparu amodau teg i weithwyr a sicrhau bod pobl agored i niwed sy'n derbyn gofal cymdeithasol yn cael eu hamddiffyn yn briodol.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru:

- Gadarnhau fel mater o frys a fydd cynllun ychwanegiad at dâl salwch statudol COVID-19 yn cael ei ymestyn y tu hwnt i fis Mawrth 2022, ac a oes cyllid ar gael yng nghyllideb ddrafft 2022-23 at y diben hwn.
- Ystyried cydgrynhoi egwyddorion y cynllun o fewn telerau ac amodau'r gweithlu gofal cymdeithasol, hynny yw parhau'r cymhwystra am ychwanegiad at dâl salwch ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n hunanynysu neu'n cymryd absenoldeb salwch o ganlyniad i COVID-19, ac na fyddai fel arall ond yn derbyn Tâl Salwch Statudol neu ddim incwm o gwbl.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r amserlenni disgwylidig i'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol wneud argymhellion brys ar gyfer gwella telerau ac amodau gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys argymhellion ynghylch dilyniant gyrfa ac estyn cymhwystra am dâl salwch am resymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19. Dylai hefyd gadarnhau a oes darpariaeth wedi'i chynnwys yn y gyllideb ddrafft i dalu'r costau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gynigion (gan gynnwys costau gweithredu).

## **Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol: iechyd a lles**

**61.** Mae naratif y gyllideb ddrafft yn cydnabod y pwysau ar weithlu'r GIG, ac yn nodi, ym mis Mehefin 2021, bod y gyfradd salwch gyfartalog ar gyfer staff am gyfnod treigl o 12 mis ar gyfer y flwyddyn wedi cynyddu i 5.7 y cant.<sup>58</sup> Ar 13 Ionawr 2022, dywedodd Prif Weithredwr GIG Cymru wrthym fod y gyfradd salwch staff yn 8.3 y cant (2.3 y cant oherwydd salwch COVID, 1.4 y cant oherwydd hunanynysu a 4.6 y cant oherwydd absenoldebau salwch eraill), ond bod amrywiad ar draws cyrff y GIG.<sup>59</sup>

**62.** Ym mis Ebrill 2020, cafodd Gwasanaeth Iechyd i Weithwyr Proffesiynol Iechyd Cymru ei ehangu o ddarparu cymorth iechyd meddwl i feddygon y GIG yn bennaf i gynnwys gwasanaethu holl weithlu'r GIG. Ar gyfer 2022-25, bydd y gwasanaeth yn cael £4.5 miliwn yn

---

<sup>58</sup> Llywodraeth Cymru, *Cyllideb Ddrafft 2022-23: cyllideb i adeiladu Cymru gryfach, tecach a gwyrdd*, 20 Rhagfyr 2021, t.17

<sup>59</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 217], 13 Ionawr 2022

ychwanegol i ymestyn y ddarpariaeth i'r sector gofal cymdeithasol. Mae'r gyllideb ddrafft hefyd yn cynnwys cyllid parhaus ar gyfer rhaglen Cymru Iach ar Waith, sy'n darparu adnoddau iechyd meddwl a llesiant i'w defnyddio ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat.<sup>60</sup>

## Ein barn ni

**63.** Rydym yn diolch i'r holl weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, y gwirfoddolwyr a'r gofalwyr di-dâl am eu gwaith diflino, ymroddedig a hollbwysig trwy gydol y pandemig, wrth iddynt ddarparu gofal a chymorth i bobl mewn angen ar draws ein cymunedau.

**64.** Fodd bynnag, rydym yn rhannu'r pryderon a godwyd gan Gonffederasiwn GIG Cymru ynghylch lefelau blinder staff, a'r risgiau o orflino neu bobl yn dewis gadael y gweithlu.<sup>61</sup> Rydym yn deall mawredd y pwysau a'r trawma y mae pobl sy'n gweithio ar draws ein sectorau iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u profi drwy gydol y pandemig. Mae'r estyniad i Wasanaeth Iechyd i Weithwyr Proffesiynol Iechyd Cymru i gynnwys pob gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol tan 2025 i'w groesawu'n fawr, a byddem yn annog unrhyw un sy'n teimlo y gallai fod arnynt angen cymorth neu gefnogaeth i ddefnyddio'r gwasanaeth.

## Cymorth i ofalwyr di-dâl

**65.** Mae nifer y gofalwyr di-dâl yng Nghymru wedi cynyddu yn ystod y pandemig, gyda Gofalwyr Cymru yn amcangyfrif ym mis Rhagfyr 2021 y gallai fod cymaint â 683,000 o ofalwyr di-dâl. Mae Gofalwyr Cymru wedi adrodd bod pump o'r saith bwrdd iechyd a'u hawdurdodau lleol priodol wedi datgan na wnaethant allu cyflawni pecynnau gofal cymunedol o ganlyniad i brinder yn y gweithlu, a bod gofyn felly i ofalwyr di-dâl ymgymryd â thasgau ychwanegol. Roedd hyn yn dilyn ymchwil a wnaed yn gynharach yn y flwyddyn gan Gofalwyr Cymru a ganfu fod 72 y cant o ofalwyr di-dâl wedi methu â chymryd unrhyw gyfnod o seibiant o gwbl o'u rôl ofalu ers dechrau'r pandemig.<sup>62</sup>

**66.** Adroddodd ADSS Cymru ym mis Rhagfyr 2021 fod y pandemig wedi dangos effaith gwasanaethau gofal seibiant fel gwasanaeth hanfodol, ond yr amharwyd yn ddifrifol ar wasanaethau o'r fath. Ymhlith yr hyn a gafodd eu heffeithio'n andwyol gan yr amhariad hwn ar wasanaethau o'r fath, roedd: lles, iechyd corfforol ac iechyd meddwl defnyddwyr gwasanaeth,

<sup>60</sup> Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23](#), Rhagfyr 2021, t.10

<sup>61</sup> Confederasiwn GIG Cymru, [Ymateb i waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23](#), 24 Tachwedd 2021, t.4

<sup>62</sup> Gofalwyr Cymru, ['Struggling unpaid carers face bleak Christmas as health boards and local authorities ask the to provide more care'](#), 16 Rhagfyr 2021

gofalwyr a staff; graddau'r dewis; gwaethygu'r anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes; a risgiau i gynaliadwyedd rhai gwasanaethau.<sup>63</sup>

**67.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym fod y gyllideb ddrafft yn cynnwys £10 miliwn yn ychwanegol ar gyfer cymorth i ofalwyr di-dâl.<sup>64</sup> Yn ogystal â dyraniadau eraill, yn 2022-23 mae hyn yn cynnwys £3 miliwn i "i gynyddu'r cyfleoedd i ofalwyr di-dâl gael seibiant a chymryd hoe". Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r cyllid "annog arloesedd ac yn helpu mwy o ofalwyr di-dâl i ganolbwyntio ar eu hiechyd a'u llesiant eu hunain".<sup>65</sup> Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod adroddiad canol blwyddyn ar y defnydd o gyllid tebyg yn 2021-22 yn dangos bod ystod o opsiynau newydd ac arloesol yn cael eu datblygu, megis gwasanaeth ymateb cyflym sy'n cynnig gofal seibiant yn y cartref, teithiau dydd, talebau i ofalwyr ifanc, aelodaeth o gampfa a phrynu offer ymarfer corff a dodrefn awyr agored neu dabled.<sup>66</sup> Ychwanegodd y byddai'r ffordd y defnyddir cyllid 2022-23 yn cael ei lywio gan y grŵp cynghori gweinidogol, yn ogystal ag adroddiad a gomisiynwyd gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i bennu gweledigaeth newydd ar gyfer gofal seibiant a chyfnodau byr o hoe yng Nghymru.<sup>67</sup>

## Ein barn ni

**68.** Mae arnom ni i gyd ddyled enfawr i'r nifer cynyddol o ofalwyr di-dâl ledled Cymru. Gall darparu gofal ar adegau arferol fod yn heriol, ond yn ystod y pandemig, yng nghyd-destun y gostyngiad mewn gwasanaethau cymorth ac amhariad ar y gwasanaethau a oedd ar gael, mae'r pwysau wedi bod, ac yn parhau i fod, yn aruthrol.

**69.** Heb ein gofalwyr, byddai ein systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu llethu ac ni fyddant yn gallu gweithredu. Mae'n hanfodol bod cyfraniad gofalwyr yn cael ei gydnabod yn briodol, a'u bod yn cael eu cefnogi fel y gallent barhau i ofalu cyhyd ag y dymunant wneud hynny.

**70.** Rydym yn croesawu'r ffaith i gyllid gael ei gynnwys i gefnogi gofalwyr di-dâl, gan gynnwys gofal seibiant, yn y gyllideb ddrafft. Fodd bynnag, o ystyried y cynnydd yn nifer y gofalwyr yn ystod y pandemig (a'r potensial i'r nifer hwnnw barhau i gynyddu o ganlyniad i COVID-19,

---

<sup>63</sup> ADSS Cymru, *'The impact of the coronavirus pandemic on day services, respite care and short stay placements'*, 7 Rhagfyr 2021

<sup>64</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 187], 13 Ionawr 2022

<sup>65</sup> Llywodraeth Cymru, *Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23*, Rhagfyr 2021, t.10

<sup>66</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 187], 13 Ionawr 2022

<sup>67</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 188], 13 Ionawr 2022

---

COVID hir, a'r ansefydlogrwydd parhaus a'r prinder yn y gweithlu sy'n effeithio ar faes gofal cymdeithasol), byddem yn croesawu sicrwydd gan Lywodraeth Cymru bod y dyraniadau ychwanegol a ddarperir i ategu'r cyllid a ddarperir drwy'r setliad llywodraeth leol yn ddigonol i ddiwallu'n briodol anghenion gofalwyr di-dâl.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd bod y cyllid sydd ar gael ar gyfer gofal seibiant i ofalwyr di-dâl yng Nghymru yn ddigonol, gan gynnwys manylion unrhyw asesiadau ariannol penodol sydd wedi'u cynnal ar y gost o ddarparu hoe a seibiant digonol i'r nifer cynyddol o ofalwyr di-dâl yng Nghymru.

## 7. Gwasanaethau iechyd

### Mesurau ataliol ac anghydraddoldebau iechyd

**71.** Mae gan Gymru lefelau uchel o glefydau cronig, ac mae cryn bryder am ffyrdd o fyw afiachus. Mae'r pandemig wedi amlygu a gwaethygu anghydraddoldebau iechyd.<sup>68</sup> Dywedodd Prif Swyddog Meddygol Cymru ym mis Ionawr 2021 fod y pandemig wedi "tynnu sylw at bwysigrwydd gwaith atal asiantaethau iechyd y cyhoedd i leihau ffyrdd afiach o fyw ac ymddygiad a all gynyddu annhegwch iechyd drwy gyflyrau cronig".<sup>69</sup> Yn ôl ymchwil a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn edrych ar wahanol wasanaethau ysbyty, roedd lle i awgrymu y gallai camau ataliol a dargedir i wella tegwch iechyd rhwng cymunedau breintiedig a chymunedau difreintiedig a sicrhau y cânt fynediad prydlon at wasanaethau iechyd helpu i leihau bwlch gofal iechyd o £322 miliwn, yn enwedig mewn perthynas â'r niferoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth damweiniau ac achosion brys.<sup>70</sup>

**72.** Mae Conffederasiwn GIG Cymru wedi galw am weithio traws-lywodraeth i wella iechyd a lles ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, ac mae wedi croesawu'r buddsoddiad yn y gyllideb ddrafft i helpu i wella penderfynyddion iechyd ehangach.<sup>71</sup>

<sup>68</sup> Gweler, er enghraifft, Cell Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru, *Coronafeirws (COVID-19) ac Anghydraddoldebau Iechyd*, 19 Hydref 2020; neu Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, *Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol: meysydd i weithredu arnynt mewn gwaith, hinsawdd a newid demograffig*, Tachwedd 2021

<sup>69</sup> Prif Swyddog Meddygol Cymru, *Diogelu ein hiechyd: ein hymateb yng Nghymru i gyfnod cyntaf COVID-19*, 30 Ionawr 2021, t.64

<sup>70</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru, *'Gallai mynd i'r afael ag anghydraddoldeb arbed £322 miliwn i ysbytai yng Nghymru bob blwyddyn'*, 16 Rhagfyr, 2021

<sup>71</sup> Conffederasiwn GIG Cymru, *'Ymateb i gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru'*, 20 Rhagfyr 2021

**73.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, esboniodd Llywodraeth Cymru, er bod Fframwaith Cynllunio'r GIG yn nodi y dylid defnyddio mesurau atal eang ar draws pob agwedd ar gynllunio, fod y camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd:

*"...wedi cael eu cyflwyno ar draws yr holl weithgarwch, o ganlyniad i'r cynllunio strategol sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a thrwy ein dull gweithredu iechyd ym mhob polisi (a gefnogir gan broses Asesu'r Effaith ar Iechyd). O ganlyniad i hynny, yn aml iawn nid yw'r gyllideb sy'n cael ei dyrannu'n benodol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn gallu cael ei gwahanu oddi wrth gyfanswm gwariant y llywodraeth."*<sup>72</sup>

**74.** Ailadroddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn gofyn am ffocws ehangach na materion iechyd uniongyrchol, gan gynnwys tai, tlodi a mynediad at fwyd. Dywedodd, yn ogystal â gwella canlyniadau unigol, y gallai mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd leihau'r galw ar wasanaethau iechyd a helpu i greu arbedion ariannol i'r GIG yn y tymor hwy. Ychwanegodd ei bod yn bwriadu nodi mesurau penodol, er enghraifft yn ymwneud â'r defnydd a wneir o dybaco a phwysau iach, gan sefydlu mecanweithiau monitro ac atebolrwydd i asesu perfformiad byrddau iechyd.<sup>73</sup> Soniodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Lles am ddyraniadau cyllideb penodol ar gyfer mynd i'r afael â gordewdra, rhoi'r gorau i ysmegu a thargedu ymyriadau at grwpiau risg penodol. Yn ogystal, eglurodd mai un o'r chwe philer o fewn y gronfa ranbarthol newydd ar gyfer integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a ddefnyddir i alinio gweithgareddau a ariennir fyddai mesurau ataliol yn y gymuned a chydgysylltu cymunedol.<sup>74</sup>

**75.** Mae'r gyllideb ddrafft hefyd yn cynnwys ymrwymiad i ymestyn y ddarpariaeth prydu ysgol am ddim. Yn unol â'r dull atal traws-lywodraeth, dywedwyd wrthym y byddai'r cynnig yn cael ei gefnogi gan asesiad o'r effaith ar iechyd i helpu i gyflawni safonau maeth gwell, a dywedwyd bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sicrhau'r buddion mwyaf posibl i gymunedau lleol drwy sicrhau bod bwyd lleol yn cael ei ddefnyddio er mwyn cefnogi'r economi leol a swyddi lleol.<sup>75</sup>

---

<sup>72</sup> Llywodraeth Cymru, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23, Rhagfyr 2021, tt.5 a 20

<sup>73</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 70 ac 130], 13 Ionawr 2022

<sup>74</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 131], 13 Ionawr 2022

<sup>75</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 135-6], 13 Ionawr 2022

---



## Ein barn ni

**76.** Mae'r pandemig wedi amlygu'r anghydraddoldebau iechyd sylweddol ledled Cymru, a'r angen i weithredu er mwyn gwella iechyd ar draws ein holl gymunedau. Rydym yn cytuno â'r Gweinidogion bod angen gweithredu traws-lywodraeth i fynd i'r afael ag achosion a goblygiadau amlochrog anghydraddoldebau iechyd. I'r perwyl hwn, mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn un o'r themâu trawsbynciol ar gyfer ein gwaith yn ystod y Chweched Senedd.<sup>76</sup>

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am ei blaenoriaethau strategol ar gyfer atal anghydraddoldebau iechyd a mynd i'r afael â nhw, a sut y mae dyraniadau yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23 wedi'u targedu a sut y cânt eu monitro i sicrhau bod gwariant gan fyrddau iechyd a chyrrff cyhoeddus eraill yn cyflawni'r canlyniadau gofynnol.

## Gofal sylfaenol

**77.** Mae cyllideb ddrafft 2022-23 yn cynnwys cyllid i gefnogi'r gwaith o gyflawni Model Gofal Sylfaenol Cymru, sy'n cynnwys gwasanaethau wedi'u contractio gan feddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr cymunedol ac optometryddion, yn ogystal â gwasanaethau, gofal a chymorth ar gyfer iechyd a llesiant yn y gymuned ehangach.

**78.** Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod wedi ei gwneud yn glir i fyrddau iechyd ei bod yn disgwyl gweld symudiad o ofal eilaidd i ofal sylfaenol. Yn benodol, soniodd am:

- Ei disgwyliad y byddai'r contract gwasanaethau meddygol cyffredinol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 gyda £5.2 miliwn ychwanegol cysylltiedig yn gwella mynediad at feddygfeydd teulu, gan gynnwys rhoi stop ar y galw llethol ben bore.
- Bydd y contract deintyddiaeth newydd yn dechrau ym mis Ebrill 2022, gyda £2 filiwn o gyllid rheolaidd ychwanegol. Yn ogystal â dulliau newydd o fesur gweithgarwch, bydd y contract newydd yn cynnwys mesurau newydd o ran defnyddio farnais fflworid, derbyn cleifion newydd a chyfnodau adalw priodol.

<sup>76</sup> Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Strategaeth y Chweched Senedd*, Rhagfyr 2021

- Ffocws ar optometreg, gyda'r bwriad o annog i lawer mwy o waith optometreg gael ei wneud o fewn cymunedau yn hytrach na phobl yn mynd yn syth i ofal eilaidd.<sup>77</sup>

## Ein barn ni

**79.** Yn ein strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd rydym wedi nodi gofal sylfaenol, gan gynnwys ehangu'r ddealltwriaeth o'r ystod o wasanaethau, cyfeirio, rhagfarn anymwybodol a llythrennedd iechyd, fel mater i'w ystyried yn ystod blynyddoedd 2 i 5 yn nhyrnor y Senedd.<sup>78</sup>

**80.** Rydym yn croesawu'r awgrym gan y Gweinidog y bydd trefniadau'r contract newydd yn gwella mynediad at feddygyfeydd teulu a phractisau deintyddol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau symudiad sylweddol a pharhaol tuag at ofal sylfaenol, bydd angen ffocws strategol clir, yn enwedig yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig a'r adferiad yn dilyn y pandemig.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion am sut y bydd dyraniadau penodol o fewn y gyllideb ddrafft yn cyfrannu at symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol, a sut y caiff y cynnydd a wneir â'r newid hwnnw ei fonitro drwy gydol y flwyddyn ariannol.

## Gwasanaethau iechyd meddwl

**81.** Yn 2022-23, bydd cyfanswm y gyllideb sydd wedi'i neilltuo ar gyfer iechyd meddwl a ddarperir i fyrdau iechyd dros £760 miliwn, sef y maes gwariant unigol uchaf gan y GIG yng Nghymru. Yn ogystal, mae cyllideb 2022-23 yn cynnwys dyraniad ychwanegol o £50 miliwn ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, gan godi i £90 miliwn erbyn 2024-25. Ym mlwyddyn ariannol 2022-23, bydd cyllid o'r dyraniad o £50 miliwn "yn cynorthwyo gwasanaethau iechyd meddwl rheng flaen yn bennaf, ac yn cyfrannu hefyd at atal salwch meddwl ym maes camddefnyddio sylweddau, atal cychwynnol yng nghyd-destun iechyd y cyhoedd, a chymorth ar gyfer cyflogadwyedd".<sup>79</sup> Bydd rhywfaint o'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i leihau amseroedd aros, ond pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant y bydd cyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio i gyflawni amcanion cynllun cyflawni 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' a'r ymrwymadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan bwyllgorau'r Pumed Senedd mewn perthynas ag iechyd meddwl.<sup>80</sup> Dywedodd wrth y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, wrth geisio cyllid o'r dyraniad iechyd meddwl ar gyfer datblygu

---

<sup>77</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 127-8], 13 Ionawr 2022

<sup>78</sup> Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Strategaeth y Chweched Senedd*, Rhagfyr 2021

<sup>79</sup> Llywodraeth Cymru, *Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23*, Rhagfyr 2021, t.4

<sup>80</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 145], 13 Ionawr 2022

---

gwasanaethau, y byddai'n ofynnol i fyrddau iechyd ddarparu cynlluniau y byddai Llywodraeth Cymru yn craffu arnynt ac yn eu monitro.<sup>81</sup>

**82.** Cydnabu'r Dirprwy Weinidog fod y pandemig wedi gwaethygu'r pwysau ar y gweithlu o fewn gwasanaethau iechyd meddwl, a bod pwysau o'r fath yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol wedi cyfyngu ar y graddau y gellid gwireddu buddsoddiadau a fwriadwyd. Esboniodd, cyn rhyddhau cyllid ar gyfer 2022-23, y byddai'n gweithio gyda byrddau iechyd i nodi swyddi neu raddau sy'n cyflwyno heriau recriwtio penodol fel bod darlun cliriach o ble y gallai cyllid gael yr effaith fwyaf.<sup>82</sup>

### Ein barn ni

**83.** Mae iechyd meddwl yn flaenoriaeth allweddol i ni,<sup>83</sup> ac rydym wrthi'n cynnal ymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl.<sup>84</sup> Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, yn ddiweddarach eleni, rydym yn bwriadu ceisio'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Weinidog ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn y Bumed Senedd mewn perthynas â iechyd meddwl.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer y dyraniad ychwanegol o £50 miliwn ar gyfer iechyd meddwl, a darparu manylion ynghylch sut y caiff cyllid ei ddyrannu i fyrddau iechyd a sut y caiff gwariant a chanlyniadau eu monitro a'u hadrodd.

### Iechyd menywod

**84.** Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym, er nad oedd unrhyw arian wedi'i neilltuo yn y gyllideb ar gyfer iechyd menywod a bod gwaith ar stop yn sgil amrywiolyn Omicron, roedd Llywodraeth Cymru yn datblygu cynnig iechyd menywod, a dywedodd ei bod yn gobeithio darparu rhagor o fanylion ynghylch hyn yn fuan.<sup>85</sup>

### Ein barn ni

**85.** Mae iechyd menywod yn un o'r meysydd blaenoriaeth yr ydym wedi'u nodi yn ein strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd.<sup>86</sup> Er ein bod yn cydnabod mor gymhleth yw'r mater o

<sup>81</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 157], 13 Ionawr 2022

<sup>82</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 148], 13 Ionawr 2022

<sup>83</sup> Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Strategaeth y Chweched Senedd*, Rhagfyr 2021

<sup>84</sup> Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Anghydraddoldebau iechyd meddwl* [cyrchwyd Ionawr 2022]

<sup>85</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 42-3], 13 Ionawr 2022

<sup>86</sup> Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Strategaeth y Chweched Senedd*, Rhagfyr 2021

neilltuo cyllid ar gyfer iechyd menywod, rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatblygu cynnig iechyd menywod, ac edrychwn ymlaen at gael rhagor o wybodaeth am hyn, gan gynnwys sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod y cynigion yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro pryd y mae'n bwriadu cyhoeddi ei chynigion ar gyfer iechyd menywod. Pan fydd y cynigion yn cael eu cyflwyno, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau eu bod yn cynnwys:

- Manylion am sut y mae'r cynigion yn adlewyrchu hunaniaeth a nodweddion aml-haenog a chroestoriadol menywod, a sut y bydd gwasanaethau, ymyriadau a chyllid yn cael eu targedu i ystyried anghydraddoldebau iechyd presennol.
- Amcanion clir a mesuradwy, a manylion am sut y caiff y cynnydd a wneir ei asesu a'i adrodd.
- Cadarnhad o'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni amcanion y cynigion.
- Manylion cynlluniau Llywodraeth Cymru i ymgysylltu a chyfathrebu â menywod a merched ynglŷn â'r cynigion.

## Dementia

**86.** Dywedodd y Gymdeithas Alzheimer fod pobl yr effeithir arnynt gan ddementia wedi cael eu taro'n galed iawn gan y pandemig.<sup>87</sup> Mewn tystiolaeth i'n hymchwiliad ar effaith yr ôl-groniad amseroedd aros, dywedodd y Gymdeithas wrthym fod tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu, tua diwedd 2021, fod tua 4,000 o bobl yn aros am apwyntiadau asesu'r cof yng Nghymru. Aeth cynrychiolydd y Gymdeithas ymlaen i ddweud:

*"With Wales diagnosis rate for dementia dropping to around 50% in the midst of pandemic, it is clear from the anecdotal evidence mentioned above that Wales is likely to add around 2000 people to the estimated number of 50,000 people living with a diagnosis in Wales currently".<sup>88</sup>*

---

<sup>87</sup> Cymdeithas Alzheimer, '*Worst hit: dementia during coronavirus*', Medi 2020

<sup>88</sup> Y Gymdeithas Alzheimer, Ymateb i ymchwiliad byr y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl yng Nghymru sy'n aros am ddiagnosis neu driniaeth, Ionawr 2022

---

**87.** Roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod pwysau o ran cael mynediad at wasanaethau cymorth diagnostig ar gyfer dementia, a dywedodd fod y Llywodraeth yn bwriadu clustnodi cymorth i ddarparu mwy o gapasiti mewn meysydd lle bo galw.<sup>89</sup>

### Ein barn ni

**88.** Mae'r pandemig wedi amharu'n sylweddol ar fynediad at ddiagnosis a gofal dementia. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am sut y bydd y gyllideb ddrafft yn sicrhau bod cyllid digonol ar gael ar gyfer y gwasanaethau hollbwysig hyn.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am sut y mae'n bwriadu clustnodi cymorth ariannol ar gyfer diagnosis a gofal dementia.

## 8. Gofal cymdeithasol

### Cyllid refeniw

**89.** Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23 yn cynnwys dyraniad parhaus o £45 miliwn ar gyfer grant y gweithlu gofal cymdeithasol, ac mae'n sefydlu cronfa newydd gwerth £45 miliwn (yn codi i £60 miliwn yn 2024-25) ar gyfer diwygio gofal cymdeithasol. Nod datganedig y gronfa yw hybu'r gwaith o ddiwygio a gwella gofal cymdeithasol, ategu'r codiad cyflog a ddarperir drwy'r setliad llywodraeth leol, ac ariannu'r diwygiadau a nodir yn y Papur Gwyn ar Ailgydbwysio Gofal a Chymorth. Bydd y dibenion y caiff y cyllid ei ddarparu ar eu cyfer yn 2022-23 yn cynnwys:

- £10 miliwn yn 2022-23 i baratoi at gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i "ddileu elw preifat yn sgil gofalu am blant sy'n derbyn gofal yn ystod tymor nesaf y Senedd".
- £3 miliwn ychwanegol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru i ehangu cofrestrriad proffesiynol y gweithlu gofal cymdeithasol, ac i gyflawni'r Strategaeth Gweithlu ar y Cyd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Sefydlu hybiau cymunedol iechyd a gofal cymdeithasol i gyfrannu at yr agenda atal ac ymyrraeth gynnar.
- Camau gweithredu i ategu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

---

<sup>89</sup> Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23](#), Rhagfyr 2021, t.17

- Cymorth i grwpiau fel gofalwyr di-dâl.<sup>90</sup>

**90.** Pan ofynnwyd iddi nodi mewn tystiolaeth ysgrifenedig sut y byddai'r dyraniadau yn y gyllideb ddrafft yn sicrhau hyfywedd a sefydlogrwydd parhaus gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal preswyl a gofal cartref, dywedodd Llywodraeth Cymru:

*"Bydd y cyllid yn helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth a mwy o gyfeiriad polisi o ran modelau cyflawni a chomisiynu mewn perthynas â gofal cartref; cysylltu ag offer a thechnoleg gynorthwyol, a rhyngweithio â gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ac ailalluogi."<sup>91</sup>*

**91.** Nid yw'r cyllid drwy'r setliad llywodraeth leol, sy'n cynnwys cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol, wedi'i neilltuo. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod darpariaeth wedi'i chynnwys o fewn y setliad sy'n "cyfateb i lefel y pwysau a amlinellwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a'r asesiad o'r costau ychwanegol i awdurdodau lleol yn sgil cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal", a bod y cyllid ar gyfer 2022-23 felly "yn ddigon i ddelio â'r pwysau cyllid ar awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf". Gan nad yw'r cyllid wedi'i neilltuo, nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu "monitro'n benodol unrhyw elfen o wariant awdurdodau lleol yng nghyswllt y cyllid sydd wedi'i gynnwys yn y setliad hwn".<sup>92</sup> Eglurodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol mai'r rheswm am hyn yw bod awdurdodau lleol yn ddemocrataidd atebol am nodi a chyflawni yn erbyn blaenoriaethau lleol, ond roedd yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn cyhoeddi data helaeth ar gyllidebau a gwariant awdurdodau lleol.<sup>93</sup>

**92.** Fodd bynnag, mae Conffederasiwn GIG Cymru wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu dyraniadau wedi'u neilltuo i awdurdodau lleol ar gyfer cyllid gofal cymdeithasol, ac mae'n awgrymu y byddai hyn yn cefnogi cynaliadwyedd iechyd a lles ar draws y system gyfan.<sup>94</sup> Mae hyn yn adlewyrchu'r galwadau a wnaed gan Fforwm Gofal Cymru mewn perthynas â'r swm

---

<sup>90</sup> Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23](#), Rhagfyr 2021, t.16

<sup>91</sup> Ibid, t.16

<sup>92</sup> Ibid, t.16

<sup>93</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 164-5], 13 Ionawr 2022

<sup>94</sup> Conffederasiwn GIG Cymru, [Ymateb i waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23](#), 24 Tachwedd 2021, t.10

cyntaf o gyllid caledi COVID-19 am fwy o arweiniad a chyfeiriad o ran defnyddio'r cyllid gofal cymdeithasol a roddir i awdurdodau lleol.<sup>95</sup>

## Ein barn ni

**93.** Mae'r sector gofal cymdeithasol wedi bod yn rhy fregus am gyfnod rhy hir, hyd yn oed cyn i'r sefyllfa waethygu yn sgil y pandemig. Mae sefydlogrwydd y sector yn hanfodol i sicrhau y gall y bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru fod yn hyderus y byddant yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt yn ein cymunedau. At hynny, heb sector gofal cymdeithasol effeithiol, cadarn ac ymatebol, ni all ein gwasanaethau iechyd weithredu'n effeithiol. Fel y dangosir gan y dystiolaeth i'n hymchwiliad ar lif cleifion, mae'r pwysau ar y sector gofal cymdeithasol yn arwain at ormod o bobl naill ai'n profi oedi wrth gael eu rhyddhau o'r ysbyty neu'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty heb fod pecynnau gofal digonol yn eu lle. Mae'r effaith andwyol ar unigolion yn sylweddol, gan arwain mewn rhai achosion at bobl angen gofal iechyd pellach neu lefelau uwch o ofal cymdeithasol neu gymorth (gan gynnwys gan ofalwyr di-dâl).<sup>96</sup>

**94.** Os na cheir y cydbwysedd cywir rhwng cyllid iechyd a gofal cymdeithasol—cydbwysedd sy'n adlewyrchu'n briodol y parch cydradd y dylid ei roi i'r ddau sector—yna gall y cyllid a ddyrennir i wasanaethau iechyd barhau i gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn heb ddarparu gwasanaethau mwy integredig na chanlyniadau gwell i ddefnyddwyr gofal cymdeithasol a chleifion.

**95.** I'r perwyl hwn, rydym yn croesawu'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol yn y gyllideb ddrafft, a'r datganiad ei fod yn adlewyrchu'r asesiadau a wnaed gan awdurdodau lleol. Rydym hefyd yn croesawu'r cadarnhad bod costau ariannu'r cyflog byw gwirioneddol wedi'u hymgorffori yn y setliad llywodraeth leol.

**96.** Fodd bynnag, nid ydym wedi cael sicrwydd eto y bydd y dyraniadau cyllid o fewn y gyllideb ddrafft yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r pwysau uniongyrchol, yn sefydlogi'r sector yn y tymor hwy nac yn sicrhau bod gan wasanaethau gofal cymdeithasol y cyllid sydd ei angen arnynt i chwarae eu rhan wrth ddarparu gwasanaeth integredig a gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol effeithiol i Gymru.

<sup>95</sup> The Leader, *'Mario Kreft on giving £40m social care cash to councils'*, 14 Medi 2021

<sup>96</sup> Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Rhyddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai* [cyrchwyd Ionawr 2022]

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd y bydd y gyllideb ddrafft yn mynd i'r afael â'r argyfwng uniongyrchol sy'n wynebu gofal cymdeithasol yng Nghymru a'r heriau tymor hwy. Dylai hyn gynnwys nodi ac egluro:

- Y camau a gymerir yn y tymor byr i fynd i'r afael â'r gweithlu a phwysau eraill y mae darparwyr gofal cymdeithasol yn eu hwynebu, a manylion unrhyw gynlluniau wrth gefn sydd ar waith i sicrhau bod pobl yn parhau i gael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt pe bai'r pwysau a wynebir gan y sector yn gwaethygu.
- Y camau a gymerir yn ystod y gyllideb aml-flwyddyn hon i sefydlogi'r sector, paratoi ar gyfer diwygiadau, a sicrhau cydbwysedd teg a chynaliadwy rhwng cyllid ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd neu ddatblygiadau o ran talu am ofal yng Nghymru, ac unrhyw asesiadau o'r goblygiadau ariannu cysylltiedig.

## 9. Trawsnewid ac integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol

### Cyllid

**97.** Mae tua £8 biliwn o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei ddyrannu i wasanaethau craidd y GIG. Mae Llywodraeth Cymru yn pennu blaenoriaethau ar gyfer byrddau iechyd drwy Fframwaith Cynllunio'r GIG. Cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn disgwyl i'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a gyflwynwyd gan fyrddau iechyd ym mis Chwefror 2022 gynnwys cynlluniau ar gyfer trawsnewid gwasanaethau yn ogystal â mynd i'r afael â rhestrau aros. Er mai'r byrddau iechyd sy'n berchen ar y cynlluniau hyn, rhybuddiodd y Gweinidog, pe na bai'n gweld blaenoriaethau trawsnewid Llywodraeth Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau, y byddai'n gweithio gyda'r byrddau iechyd i'w haddasu yn unol â hynny.<sup>97</sup>

**98.** Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r gronfa gofal integredig gwerth £89 miliwn a'r gronfa drawsnewid gwerth £50 miliwn, sydd ill dau yn cael eu gweinyddu drwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol, wedi bod yn elfennau allweddol o agenda trawsnewid ac integreiddio Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd y cronfeydd wedi bod yn destun peth beirniadaeth, a

---

<sup>97</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 66], 13 Ionawr 2022



chanfu Archwilio Cymru yn 2019 “na cheir llawer o dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus wedi’u prif-frydio a’u hariannu fel rhan o wasanaethau craidd y cyrff cyhoeddus”.<sup>98</sup> Ym mis Medi 2021, fe wnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gydnabod bod y cronfeydd yn boblogaidd gyda sefydliadau. Serch hynny, meddai:

*“...what they're not doing brilliantly yet is integrating it into the mainstream, and that's the next nut that we absolutely need to crack”.<sup>99</sup>*

**99.** O 1 Ebrill 2022 ymlaen, bydd y gronfa gofal integredig, y gronfa drawsnewid, cronfa’r cynllun gweithredu ar gyfer dementia, a’r gronfa iechyd a llesiant emosiynol yn cael eu disodli gan gronfa ranbarthol newydd sy’n integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol dros bum mlynedd, a honno werth £144.6 miliwn, ac mae’r gronfa honno hefyd i’w gweinyddu drwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol.<sup>100</sup>

**100.** Nod datganedig y Gronfa Integreiddio Ranbarthol yw: “adeiladu ar lwyddiannau’r Gronfa Gofal Integredig a’r Gronfa Trawsnewid, yn dysgu o’r profiadau a gafwyd hyd yma, ac yn parhau i sbarduno’r gwaith o integreiddio a thrawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol”.<sup>101</sup> Eglurodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai’r ffocws ar “ymgorffori chwe model gofal cenedlaethol”. Gan gydnabod y problemau gyda’r cronfeydd blaenorol, dywedodd:

*“...this time, we are saying that you have to match fund here in order to mainstream services that we know work well. There's also going to be dedicated support for the regional partnership board infrastructure costs, but also, a clear exit strategy, because what we find is that they'll say, 'This is fantastic, we love this. It's really working well; just keep on spending, just keep on giving us this new money.' What we're trying to do is to change the way they do things at the moment, so they need to be shifting their ways of working, but we just need to give them a leg up on that journey.*

*And just in terms of the governance and scrutiny and things, we are very keen to make sure that we've introduced a work programme. It's got some key work streams,*

<sup>98</sup> Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Y Gronfa Gofal Integredig](#), Gorffennaf 2019, t.4

<sup>99</sup> Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [Cofnod y Trafodion](#), 23 Medi 2021, paragraff 265

<sup>100</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 196], 13 Ionawr 2022

<sup>101</sup> Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23](#), Rhagfyr 2021, t.20

*including governance, including scrutiny, including planning and performance, including citizen engagement. So, all of those things are there and in place.*"<sup>102</sup>

## Byrddau partneriaeth rhanbarthol

**101.** Byrddau partneriaeth rhanbarthol fydd yn gyfrifol am ddatblygu cynlluniau buddsoddi ar gyfer y Gronfa Integreiddio Ranbarthol a'r gronfa gyfalaf newydd ar gyfer gofal cymdeithasol gwerth £50 miliwn. Eglurodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol fod hyn er mwyn sicrhau y bydd y cyfalaf a'r refeniw yn cael eu halinio ac y gellir datblygu a gweithredu modelau integredig ar gyfer gofal a darpariaeth.<sup>103</sup> Ychwanegodd y byddai disgwyl i fyrddau partneriaeth rhanbarthol fuddsoddi o leiaf 5 y cant o'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol dros y tair blynedd (cyfanswm o tua £4 miliwn) mewn gwasanaethau i ofalwyr di-dâl.<sup>104</sup>

**102.** Fodd bynnag, fe wnaeth ymatebwyr i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei Phapur Gwyn ar Ailgydbwysu Gofal a Chymorth (yn enwedig yr ymatebwyr o'r trydydd sector a'r sector annibynnol ac aelodau o'r cyhoedd) fynegi rhai pryderon am fyrddau partneriaeth rhanbarthol. Mae'r crynodeb o'r ymgynghoriad yn nodi y "cyfeiriodd llawer o'r ymatebion hyn at heriau o ran y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn rhoi swyddogaethau cyfredol ar waith yn effeithiol (mewn perthynas â thryloywder, atebolrwydd, cydgynhyrchu a mesur canlyniadau ac effaith)".<sup>105</sup>

**103.** Wrth nodi'r camau nesaf yn dilyn y Papur Gwyn, dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol nad oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynnig i sefydlu byrddau partneriaeth rhanbarthol fel endidau corfforaethol cyfreithiol ar hyn o bryd, ar y sail bod mwy i'w wneud i gryfhau trefniadau partneriaethau rhanbarthol i sicrhau cydweithio ar gyfer poblogaethau lleol. Dywedodd y byddai'r gwaith hwn yn cynnwys gwelliannau mewn trefniadau llywodraethu a chraffu; cynllunio a pherfformiad; ymgysylltu a lleisio barn; darparu gwasanaethau integredig; ac ailgydbwysu'r farchnad gofal cymdeithasol.<sup>106</sup>

**104.** Ym mis Rhagfyr 2021, disgrifiodd Archwilio Cymru drefniadau llywodraethu a gweithredu byrddau partneriaeth rhanbarthol fel rhai "sy'n aeddfedu", ond argymhellodd y dylai

---

<sup>102</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 197-8], 13 Ionawr 2022

<sup>103</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 168], 13 Ionawr 2022

<sup>104</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 190], 13 Ionawr 2022

<sup>105</sup> Llywodraeth Cymru, *Ailgydbwysu gofal a chymorth: Ymgynghoriad ar wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gweithio mewn partneriaeth i gefnogi llesiant pobl yn well. (ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion)*, 29 Mehefin 2021, t.36

<sup>106</sup> Llywodraeth Cymru, *Datganiad Ysgrifenedig: Y Papur Gwyn ar Ailgydbwysu gofal a chymorth – y camau nesaf*, 29 Hydref 2021

Llywodraeth Cymru gymryd camau i'w gwneud yn ofynnol i gryfhau trefniadau craffu ac atebolrwydd ar gyfer byrddau partneriaeth rhanbarthol, ac y dylai ddatblygu fframwaith ar gyfer perfformiad sy'n seiliedig ar adroddiadau ar ganlyniadau.<sup>107</sup>

## Ein barn ni

**105.** Er bod yn rhaid i'r GIG a gofal cymdeithasol gael y cyllid sydd ei angen i ddarparu'r gwasanaethau hollbwysig y mae pobl a chymunedau yng Nghymru yn dibynnu arnynt, nid yw'n gynaliadwy i gostau gwasanaethau 'busnes fel arfer' barhau i gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Gan hynny, rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i ddefnyddio ei chyllidebau a'r dulliau eraill sydd ar gael iddi i sbarduno trawsnewidiad a sicrhau mwy o wydnwch, gan sicrhau ar yr un pryd fod y sector yn gallu ymdopi â heriau'r pandemig a'r adferiad.

**106.** Er mwyn goresgyn llesgedd 'busnes fel arfer' mewn perthynas â strwythurau, gwasanaethau a chyflawni, bydd angen arweiniad strategol, cyfeiriad ac ysgogiad gan Lywodraeth Cymru, byrddau partneriaeth rhanbarthol, a byrddau iechyd—yn enwedig y rhai sydd eto i gyflawni cynaliadwyedd ariannol. Rydym yn cydnabod nad yw cyflawni newid byth yn hawdd, ac y gallai fod angen gwneud a gweithredu penderfyniadau anodd ac amhoblogaidd. Ond, heb drawsnewid gwirioneddol rydym mewn perygl o barhau i roi mwy a mwy o arian i gyflawni mwy o'r un peth, a methu â bachu ar y cyfle i weithio'n wahanol ac yn fwy effeithiol i gyflawni'r ailosodiad ar ôl y pandemig, fel ag y mae Cymru ei angen ac yn ei haeddu.

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y bydd disodli'r gronfa gofal integredig a'r gronfa drawsnewid â'r gronfa integreiddio ranbarthol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn esgor ar arloesedd a thrawsnewid ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Dylai hyn gynnwys eglurder ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei blaenoriaethau'n cael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau a ddatblygir gan fyrddau partneriaeth rhanbarthol, sut y caiff arfer da ei gyflwyno a'i brif-ffrydio, a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn craffu ar gynlluniau o'r fath a'u monitro, a hynny mewn modd tryloyw.

**107.** Nid oes digon o eglurder o hyd ynghylch rôl a gweithrediad byrddau partneriaeth rhanbarthol, a ph'un a oes ganddynt y capasiti a'r gallu i gyflawni agenda trawsnewid Llywodraeth Cymru yn gyflym, yn dryloyw, yn gyson ac â ffocws.

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r camau nesaf a'r amserlenni cysylltiedig ar gyfer datblygu rôl a gweithrediad byrddau partneriaeth rhanbarthol, gan gynnwys sut y caiff eu

<sup>107</sup> Archwilio Cymru, 'Mae'r trefniadau presennol ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i bobl hŷn yn methu â mynd i'r afael â rhai problemau sy'n bod ers amser maith', Rhagfyr 16, 2021

trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd eu cryfhau a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob bwrdd partneriaeth rhanbarthol yn gweithredu ar lefel y rhai mwyaf llwyddiannus.

## 10. Effaith costau ynni cynyddol

### Cefndir

**108.** Yn ei ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft, rhoddodd ADSS Cymru air o rybudd wrth groesawu'r cynnydd mewn cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol drwy'r setliad llywodraeth leol. Esboniodd fod y sector gofal cymdeithasol a gomisiynir yn annibynnol yn enwedig yn debygol o wynebu costau chwyddiant cudd o ganlyniad i COVID, gan gynyddu cyflogau a chostau ynni. Awgrymodd y byddai costau o'r fath yn cael eu cynnwys maes o law yn lefelau'r ffioedd ac y byddent yn tolco'r codiad cyflog a ddarperir yn go hegar.<sup>108</sup>

**109.** Roedd cyfarwyddwr cyllid iechyd a gwasanaethau cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod costau ynni cynyddol yn risg wrth symud ymlaen i'r flwyddyn ariannol hon, a dywedodd y byddai angen i'r Llywodraeth reoli'r risg honno yn unol â'r gwasanaeth, yn ogystal ag effaith barhaus y pandemig.<sup>109</sup>

### Ein barn ni

**110.** Fel y gwnaethom ei nodi yn adran 4 o'r adroddiad hwn, bydd byrddau iechyd yn wynebu pwysau cynyddol o ran eu costau sefydlog yn ystod cyfnod y gyllideb hon. Mae awdurdodau lleol a ddarparwyr gofal cymdeithasol yn debygol o wynebu pwysau tebyg, yn enwedig o ran costau a defnydd ynni.

**111.** Wrth i gostau ynni godi, bydd y costau sefydlog i gyrff iechyd a gofal cymdeithasol yn cynyddu. Mae hwn yn fater brys, ac yn un sy'n debygol o waethygu yn sgil y cynnydd yn y galw am wresogi ac oeri yng nghyd-destun argyfwng yr hinsawdd. Felly bydd angen i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol gynllunio'n effeithiol ar gyfer eu hanghenion ynni, gan gynnwys sut y byddant yn talu am unrhyw gynnydd yn eu costau sefydlog a beth allai'r effaith fod ar y gwasanaethau a'r canlyniadau.

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu dadansoddiad o'r costau ynni presennol a'r costau ynni a ragwelir ar gyfer byrddau iechyd yng Nghymru, a beth, yn

---

<sup>108</sup> ADSS Cymru, Tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23, Ionawr 2022, t.3

<sup>109</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 13], 13 Ionawr 2022

---

ymarferol, y bydd yn ei olygu i fyrddau iechyd a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu os bydd costau ynni a'r galw am wresogi ac oeri yn parhau i godi'n sylweddol. Dylai hefyd roi manylion unrhyw ganllawiau a ddarperir i gyrrff iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â chostau ynni neu gynllunio ar gyfer anghenion ynni.

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut yr ystyriwyd effaith costau ynni cynyddol a'r cynnydd yn y galw am wresogi ac oeri wrth bennu dyraniadau iechyd a gofal cymdeithasol yng nghyllideb ddrafft 2022-23 (a'r dyraniadau dangosol ar gyfer 2023-24 a 2024-25).